# Adroddiad canfyddiadau ac argymhellion

**Project**

Cynnal cyfres o sgyrsiau â rhanddeiliaid ynghylch ehangu ymgysylltiad creadigol a diwylliannol gyda chymuned rhannol-wledig Penderyn a’r cyffiniau.


**Awduron Re:cognition**

Jon Luxton

Lu Thomas



**Lluniwyd yr adroddiad ar ran**

Cyngor Celfyddydau Cymru, ac

Amgueddfa Cymru


Awst 2021



## Cynnwys


1. Cyflwyniad 2
2. Nodau, amcanion ac egwyddorion y project 3
3. Methodoleg 5
4. Crynodeb o ymatebion 6
5. Argymhellion 14


# 1. Cyflwyniad

Roedd Re:cognition yn falch o gael eu dewis gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru i gynnal gwaith ymgysylltu â phobl o gymunedau difreintiedig rhannol-wledig fel rhan o'r project 'Ehangu ymgysylltiad creadigol a diwylliannol â chymunedau ledled Cymru'. Roedd ein gwaith yn canolbwyntio ar gymunedau Penderyn, Aberdâr a Hirwaun yng nghymoedd y de.

Nod cyffredinol y project oedd helpu i ddatgelu a deall achosion sylfaenol y canfyddiadau negyddol sydd gan bobl yn aml, ac archwilio datgysylltiad posib demograffeg benodol o'r hyn y cyfeirir ato'n gyffredin fel 'y celfyddydau'. Er mwyn bod yn wirioneddol berthnasol i bawb yng Nghymru, mae'n rhaid nodi'r datgysylltiad hwn i ddechrau, cyn mynd i'r afael ag e. Fel sylfaen i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r canfyddiadau a'r rhwystrau posib i gymunedau sydd wedi'u tangynrychioli, roedd arnon ni angen lleisiau go iawn y bobl sy'n byw yn yr ardaloedd a nodwyd, ac roedd yn bwysig nad oedd y rhain yn ymwneud â'r maes 'celfyddydol a diwylliannol' fel arfer.

Roedden ni'n falch iawn o gael ein dewis i fod yn bartner ar y project hwn, gan fod gan ein sefydliad berthynas hirsefydlog gyda'r celfyddydau, a'n bod ni'n deall yr effeithiau trawsnewidiol y gall y celfyddydau a diwylliant eu cael wrth gynorthwyo â newid cymdeithasol cadarnhaol parhaus.

## 2. Nodau, amcanion ac egwyddorion y project

Roedd Cyngor y Celfyddydau ac Amgueddfa Cymru'n cydnabod nad ydyn nhw, ynghyd â'r sefydliadau partner a gomisiynwyd, wedi llwyddo i gyrraedd mor ddwfn i gymunedau difreintiedig â'r dymuniad. Mae'r diffyg cyrhaeddiad hwn yn rhwystro eu gallu i ddarparu rhaglenni a gweithgareddau a allai gyfrannu at ddatrys yr anghydraddoldebau cymdeithasol sy'n bodoli yn sectorau celfyddydol a diwylliannol Cymru. Er mwyn datgymalu'r anghydraddoldebau hirsefydlog sy'n gysylltiedig â chyfranogiad cynulleidfa, mae'n hanfodol bod hanes a doniau cyfoethog ac amrywiol holl gymunedau Cymru'n cael eu hadlewyrchu nid yn unig yn yr hyn a gaiff ei gynnig i gynulleidfaoedd ei weld, ond hefyd i unigolion a chymunedau gael eu hadlewyrchu yn y gwaith o gynhyrchu a chyfranogi mewn 'celfyddyd a diwylliant' yn eu cymunedau.

Roedd y cleientiaid yn dymuno adeiladu ymagwedd ymgysylltu/ymyrryd neu ymagweddau sy'n mynd ati i ymgysylltu â phobl o gymunedau difreintiedig yn y broses o ddatgelu'r rhwystrau rhag cymryd rhan yn nhirwedd gelfyddydol a diwylliannol Cymru. Er mwyn cynorthwyo â hyn, fe greon ni strwythur cyfweld rhannol-strwythuredig ar sail canfyddiad, a oedd yn ceisio archwilio'r themâu canlynol:

- Gwybodaeth bresennol am Gyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru.
- Beth sy'n cyfrif fel celfyddyd a diwylliant yn y cymunedau hyn.
- ble mae'n digwydd,
- pa mor aml,
- pwy sy'n ei greu,
- pwy sy'n ei brofi, a
- democratiaeth ddiwylliannol.

Rydyn ni'n deall na all unrhyw ymagweddau a ddatblygir fod yn unffurf, mae angen iddynt fod yn gyd-destunol i'r bobl/cymunedau perthnasol, ac felly mae'n rhaid iddynt ddeillio o'r bobl hynny neu gael eu dwyn ohonynt.

**Nod y project oedd datgelu:**

- Pa berthnasedd sydd gan yr egwyddorion a'r arferion sy'n gysylltiedig â'r syniad o Ddemocratiaeth Diwylliannol â'r rhai sy'n cael eu cyfweld a'u cymuned ehangach?
- Beth yw'r ffyrdd gorau o ymgysylltu â'r gymuned ddifreintiedig rhannol-wledig hon?
- Mewnwelediadau cychwynnol i ddyheadau celfyddydol a diwylliannol y gymuned hon, o safbwynt bod yn grëwr ac fel arsyllwr celfyddyd a diwylliant.
- Nodi beth fyddai'r cymunedau hyn ei eisiau o raglen sydd wedi'i chynllunio i ariannu a/neu gefnogi gweithgaredd creadigol yn eu hardal.

Bydd canlyniadau'r ymchwil hon yn cynorthwyo Cyngor y Celfyddydau i greu Rhaglen Gydweithredol Strategol sefydliad cyfan, ac yn helpu i siapio a llywio strategaeth deng mlynedd Amgueddfa Cymru. Nod y Rhaglen Gydweithredol Strategol yw hyrwyddo ymgysylltiad eang a chynhwysol gyda'r

cymunedau sy'n wynebu'r anfanteision mwyaf ar hyn o bryd, sy'n aml wedi'u heithrio o'r hyn a gaiff ei ystyried gan y sefydliad celfyddydol fel 'celfyddydau a diwylliant'.

Roedd y ddau gleient yn cydnabod bod yn rhaid cynnal y gwaith hwn er mwyn sicrhau bod safbwyntiau, dymuniadau a dyheadau cymunedau difreintiedig rhannol-wledig yn cael eu deall, bod y rhwystrau rhag cyfranogi ac arfer yn cael eu nodi, a bod ffyrdd posib o'u lliniaru yn cael eu cynnig.

Gan ddefnyddio'r fethodoleg hon, ein nod oedd:

- Nodi elfennau allweddol posib o raglen strategol i ehangu ymgysylltiad diwylliannol a chelfyddydol ar draws ardaloedd economaidd ddifreintiedig rhannol-wledig yng Nghymru.
- Datblygu mewnwelediadau i'n galluogi ni i awgrymu mathau o gefnogaeth a ffyrdd o weithio a allai helpu i wella neu gynyddu cyfleoedd.

Mae'r rhain yn nodau pwysig, ac mae'n bosib y gallant arwain at faes celfyddydol a diwylliannol mwy cyfartal a chynhwysol sy'n adlewyrchu creadigrwydd ac amrywiaeth diwylliannol cyfoethog holl gymunedau Cymru; gan ein galluogi ni i fyfyrio a sylwebu'n hyderus ar gymdeithas, gan rannu ein gwerthoedd a herio canfyddiadau a syniadau er mwyn deall ein bywydau a'n hanes yn well, ynghyd â rhai pobl eraill, gan ddarganfod ffyrdd newydd o fynegi ein hanghenion a'n dymuniadau rhyngblethol o fewn gofodau a chymunedau a rennir - gan greu democratiaeth ddiwylliannol wirioneddol a chyfartal.

Mae'r astudiaeth hon yn gymharol unigryw, ond ni fydd nodau Cyngor y Celfyddydau/Amgueddfa Cymru yn cael eu gwireddu'n llwyr drwy'r adroddiad hwn yn unig. Serch hynny, gallai'r ymchwil hon fod yn sail i astudiaethau pellach.

# 3. Methodoleg

Roedd ein holl waith ar y project hwn wedi'i seilio ar ddamcaniaeth ac arfer Damcaniaeth Seiliedig.

**Dull o ymgysylltu â rhanddeiliaid y project**
Un o egwyddorion y math hwn o waith ymgysylltu cymunedol yw, lle bo'n bosib, y dylid ymgysylltu â phobl yn eu gofodau eu hunain. Er enghraifft, wrth ymgysylltu â grŵp cymunedol, rydyn ni'n ceisio cwrdd â nhw yn eu gofod cyfarfod rheolaidd ar amser/dyddiad y bydden nhw wedi cwrdd fel arfer. Fodd bynnag, amharodd Covid ar hyn. Yn ystod wythnos gyntaf mis Medi 2020, ein bwriad gwreiddiol oedd defnyddio'r dulliau ymgysylltu canlynol:

1. Cyfweliadau stryd gan weithio gyda Kitsch n Sync.
2. Cnocio drysau
3. Cyfweliadau ffôn
4. Os yn bosib, troi at grwpiau cymunedol sy'n bodoli ar-lein drwy Zoom, Skype, a Microsoft Teams
5. Cyfweliadau unigol wedi'u targedu

Serch hynny, roedd sefyllfa Covid a chyfyngiadau cysylltiedig yn golygu bod yn rhaid i ni ddiwygio'r fethodoleg ymgysylltu i'r canlynol:

1. Cyfweliadau ffôn
   Rhifau ar hap yn ardaloedd y pwnc.
2. Cyfweliadau stryd
   Gweithio gyda Kitsch n Sync

Yn anffodus, ar ôl cyhoeddi'r ail gyfnod clo ar 23 Hydref 2020, roedd yn rhaid canslo ein cyfweliadau stryd.

## 4. Crynodeb o ymatebion

Atodiad 1 - Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad llawn o'r canfyddiadau, ochr yn ochr â dyfyniadau dangosol gan ymatebwyr.  Maint y sampl oedd 72 o bobl o boblogaeth o 44,940.

### Cwestiwn 1

**Pan fyddwch chi'n clywed y geiriau Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru, beth sy'n dod i'r meddwl?**

Dangosodd nifer isel o ymatebwyr ddealltwriaeth gadarn o rôl Cyngor y Celfyddydau (23%) ac Amgueddfa Cymru (13%).

Er efallai nad yw'r gydnabyddiaeth isel hon yn hollbwysig ynddi'i hun, gallai'r diffyg dealltwriaeth mewn perthynas â rolau'r sefydliadau effeithio ar wybodaeth a gallu pobl i geisio cyllid a chyfleoedd, gan greu bwlch cyfle rhwng dinasoedd a chymunedau gwledig tlawd.

Mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn hefyd yn awgrymu cymylu'r ffiniau rhwng Amgueddfa Cymru ac amgueddfeydd yn gyffredinol.

### Cwestiwn 2

**Pan fyddwch chi'n clywed y gair Amgueddfa, beth sy'n dod i'r meddwl yn syth?**

Ymatebodd 86% o'r ymatebwyr yn llawn neu'n rhannol i'r cwestiwn hwn.  Roedd hyn yn uwch na ffigur Cwestiwn 1, sef 65% (dim ond 13% a ddywedodd fod ganddynt ddealltwriaeth gadarn, a 52% eu bod yn deall yn rhannol).  Mae hyn yn ddealladwy am ddau reswm:

1) Roedd ganddyn nhw amser i feddwl ers Cwestiwn 1.
2) Yng Nghwestiwn 1, gofynnwyd iddyn nhw am Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru ac nid amgueddfeydd yn gyffredinol.

Yn gyffredinol, dangoswyd lefel uchel o wybodaeth, ond wrth ystyried lleoliadau, roedd eu hymatebion yn canolbwyntio'n llwyr ar gytref ardal Caerdydd, ac ni chrybwyllwyd unrhyw safleoedd eraill yng Nghymru.  Gallai hyn awgrymu ymagwedd leol iawn tuag at ymweld ag amgueddfeydd, a ddaeth yn amlwg mewn ymatebion i gwestiynau diweddarach.

### Cwestiwn 3

**Pan fyddwch chi'n clywed y geiriau celfyddyd a diwylliant, beth sy'n dod i'r meddwl yn syth?**

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gadarnhaol ac yn eithaf amrywiol.  Roedd y gyfradd ymateb gadarnhaol yn uchel, gyda dim ond 7 o bobl yn dweud nad oedd gan gelfyddyd a diwylliant ddim ystyr iddyn nhw'n bersonol.

Diwylliant Cymru gafodd yr ymateb uchaf, sef 41%. Dilynwyd hyn â 29% ar gyfer gwahanol fathau o gelfyddyd; soniodd 26% o'r ymatebwyr am gelfyddydau gweledol yn benodol, a chrybwyllodd 20% o'r ymatebwyr Dreftadaeth.

Drwy ymatebion i'r cwestiwn hwn, cafwyd 12 ateb unigryw hefyd.

Mae ystod amrywiol dda o ymatebion yn dangos lefel uchel o ddealltwriaeth o wahanol ffurfiau ar gelfyddyd a diwylliant.

## Cwestiwn 4

**Ydych chi'n adnabod rhywun sydd wedi cael cefnogaeth gan Gyngor y Celfyddydau neu Amgueddfa Cymru?**

Roedd y niferoedd hyn yn isel, gyda dim ond 21% yn adrodd 'ydw', sy'n amlygu diffyg cysylltiad dynol uniongyrchol rhwng Cyngor y Celfyddydau/Amgueddfa Cymru a'r gymuned hon. Byddai'n ddiddorol gofyn y cwestiwn hwn i bobl mewn rhannau eraill o Gymru sydd â mwy o rwydweithiau, i weld a yw hyn yn broblem genedlaethol, leol, neu'n ymwneud â dosbarth.

Gallai'r diffyg cysylltiad personol hwn gael effaith ar bobl sydd am ddatblygu eu hymdrechion artistig a diwylliannol, gan fod modelau rôl lleol a hygyrch yn gallu gwneud gwahaniaeth.

## Cwestiwn 5

**Beth yw eich barn chi am y syniad o Ddemocratiaeth Ddiwylliannol?**

Arweiniodd y cwestiwn hwn at lawer o drafodaeth, yn wir, yn fwy nag unrhyw gwestiwn arall a ofynnwyd.

Roedd yr ymatebion cychwynnol yn awgrymu mai isel iawn oedd lefel adnabyddiaeth o'r term, ond ar ôl ei egluro a'i drafod, roedd lefelau uchel iawn o gefnogaeth. Ystyriwyd bod y cysyniad yn berthnasol ac wedi'i gefnogi gan 74% o'r ymatebwyr, sef y gefnogaeth uchaf i unrhyw gynnig yn yr astudiaeth.

Nododd llawer o bobl yn syth pa mor ymarferol y gallai fod wrth ei ddefnyddio er budd eu cymuned. Yn wir, cyfeiriodd un ymatebydd at enghraifft lle roedd egwyddorion Democratiaeth Ddiwylliannol eisoes wedi'u rhoi ar waith yn eu hardal nhw.

Trodd 33% o'r ymatebwyr yn eu trafodaethau tuag at gysylltu'r term 'Democratiaeth Ddiwylliannol' â hygyrchedd yn ei ddiffiniad ehangaf.

Adlewyrchwyd y trafodaethau cadarnhaol hyn, ochr yn ochr â'u cefnogaeth tuag at 'Ddemocratiaeth Ddiwylliannol', yn atebion yr ymatebwyr i gwestiynau pellach yn yr astudiaeth.

## Cwestiwn 6

**Soniwch wrtha i am y tro diwethaf aethoch chi i amgueddfeydd / safleoedd celfyddydol?**

Datgelodd y cwestiwn hwn ymatebion uchel ar gyfer lleoliadau yng Nghaerdydd, sef y tri safle uchaf.

Datgelodd y cwestiwn hwn hefyd fod y rhai a gyfeiriodd at y Colisëwm yn angerddol am eu cefnogaeth i'r safle hwn.

Cyfeiriwyd amlaf at arddangosfeydd, cerddoriaeth, sioeau cerdd a chelf wrth ddisgrifio eu hymweliad.

Datgelodd yr ymatebion hefyd fod 70% o'r ymweliadau wedi digwydd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, gan awgrymu presenoldeb rheolaidd.

## Cwestiwn 7

**Beth fyddai'n eich annog chi i fynd i amgueddfeydd / safleoedd celfyddydol?**

Roedd y cwestiwn hwn yn rhoi cyfle i'r cyfranogwyr fynegi eu hoffterau fel cyfranogwyr ym maes celfyddydau a diwylliant yng Nghymru, ac mae'n awgrymu cydberthynas drafodol o fod eisiau adloniant yn hytrach na phrofiadau 'addysgol' mwy traddodiadol.

Yn syml, roedd yr ymatebion yn awgrymu mai'r cynnwys, pris a hygyrchedd sy'n bwysig, o ran y cynnwys a'r lleoliad.

Y genres mwyaf poblogaidd oedd sioeau cerdd, dramâu traddodiadol a modern, arddangosfeydd a sioeau teithiol mawr, bandiau, cyngherddau, a hanes a hanes cymdeithasol.

Roedd yr ymatebion yn gwyro tuag at genres y gellid eu disgrifio gan rai fel adloniant.

## Cwestiwn 8

**Ydych chi erioed wedi bod i arddangosfa yn yr amgueddfeydd / safleoedd celfyddydol lleol a enwyd?**

Dywedodd 15% o'r ymatebwyr nad oedd diddordeb ganddynt mewn amgueddfeydd na safleoedd celfyddydol lleol, sy'n sgôr negyddol cryf o gymharu â chwestiynau eraill.

Mewn perthynas ag ymweliadau ag amgueddfeydd a safleoedd celfyddydol lleol, y Colisëwm ac Amgueddfa Aberdâr (Cwm Cynon) oedd y rhai mwyaf poblogaidd o bell ffordd.

Cyfeiriwyd at Colstars, comedïwyr, ffilmiau a bandiau fel rhesymau i fynd i'r Colisëwm. Mewn perthynas ag Amgueddfa Aberdâr (Cwm Cynon), ymddengys bod presenoldeb yn cael ei hybu gan ei fod drws nesaf i archfarchnad, gan hwyluso'r gallu i 'daro i mewn am baned'.

Er bod llawer yn hoffi ac yn mynychu'r Colisëwm, roedd beirniadaeth hefyd. Roedd hyn yn cynnwys diffyg cynnwys amrywiol, maint y seddi, a dim digon o waith modern a chyfoes.

Ni chyfeiriwyd at rai lleoliadau adnabyddus cyfagos o gwbl, gan gynnwys; Theatr Soar, Neuadd Gymunedol Trecynon, Redhouse Cymru, Amgueddfa Pontypridd, Yr Amgueddfa Stêm, ac Amgueddfa Glofa Cefn Coed.

Pan fyddwn ni'n cymharu'r gweithgareddau lleol yr adroddodd yr ymatebwyr eu bod wedi ymgymryd â nhw yng Nghwestiwn 7, lle gofynnon ni 'beth fyddai'n eich annog chi i fynd i amgueddfeydd / safleoedd celfyddydol?', nid yw'r gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol a ddarperir yn lleol yn gyson â'r

dyhead lleol a adroddwyd, sy'n golygu nad yw safleoedd lleol yn ymateb neu'n gallu ymateb i anghenion lleol.

| **Gweithgareddau a ddarperir yn lleol o ran gweithgareddau o Gwestiwn 7** | **Presenoldeb** | **Dyheadau** |
|---|---|---|
| Sioeau Cerdd | 5% | 30% |
| Dramâu a theatr draddodiadol a modern | 5% | 30% |
| Sioeau ac arddangosfeydd teithiol mawr | 5% | 22% |
| Bandiau a chyngherddau | 13% | 20% |

Mae'r datgysylltiad hwn rhwng dyhead lleol a'r hyn a ddarperir yn lleol yn amlwg, ac mae'n bosib bod angen mynd i'r afael â hyn.

## Cwestiwn 9

**Ydych chi'n credu bod y 7 project a safle Amgueddfa Cymru a enwyd wedi'u cysylltu â'ch cymuned leol?**

Dim ond 25% o'r ymatebwyr oedd yn ystyried bod Amgueddfa Cymru yn gysylltiedig â'u cymuned. Mae'r nifer hwn yn isel iawn, ac mae'n bosib ei fod yn rhannol adlewyrchu lleoliad amgueddfeydd Amgueddfa Cymru, er nad oes llawer o ddatgysylltiad rhwng Amgueddfa Cymru ac amgueddfeydd eraill.

Nid atebodd nifer uchel iawn o bobl y cwestiwn hwn, a hwn oedd y cwestiwn oedd â'r lleiaf o ymatebion. Mae sawl posibilrwydd pam cafodd y cwestiwn hwn ymateb mor isel - mae'n bosib ei fod o ganlyniad i'r ffordd y cafodd y cwestiwn ei ffurfio, neu fod eu dealltwriaeth o Amgueddfa Cymru mor isel nes iddo effeithio ar eu hyder yn ateb y cwestiwn, er enghraifft.

## Cwestiwn 10

**Ydych chi'n adnabod llawer o bobl sydd wedi arddangos / perfformio yn yr amgueddfeydd / safleoedd celfyddydol lleol a enwyd?**

Dywedodd 52% o'r ymatebwyr Na/Ddim yn Gwybod ar gyfer y cwestiwn hwn, ac ni wnaeth 3% roi ateb o gwbl.

Dywedodd 45% o'r ymatebwyr eu bod yn adnabod pobl sydd wedi arddangos / perfformio mewn amgueddfeydd lleol / safleoedd celfyddydol, gyda 76% ohonyn nhw'n adrodd cysylltiad drwy Colstars. Roedd y rhan fwyaf o'r cysylltiadau yn rhai teuluol, fel plant yn perfformio cerddoriaeth, dawns a drama.

Ymddengys bod y Colstars wedi datblygu cyrhaeddiad uchel yn y gymuned hon. Mae'n ymddangos eu bod nhw'n gweithio'n dda iawn gyda phobl ifanc, gan roi cyfleoedd da iddyn nhw gyfranogi. Ni ellir dweud hyn am amgueddfeydd lleol nac Amgueddfa Cymru, gan na chafwyd tystiolaeth mewn perthynas â phobl ifanc yn cymryd rhan yn eu projectau addysgol, sy'n awgrymu diffyg cyrhaeddiad yn y gymuned hon.

## Cwestiwn 11

**Pa fath o arddangosfeydd / digwyddiadau diwylliannol / perfformiadau fyddai'n eich perswadio chi i ymweld â 7 Amgueddfa Cymru / safleoedd celfyddydol?**

Cafodd y cwestiwn hwn ymateb brwdfrydig iawn, gydag ymgysylltiad cryf i'r cynnwys a'r ffurfiau celfyddydol/diwylliannol a gynigiwyd fel dewis.

Yn yr atebion oedd yn ymwneud â Chyngor y Celfyddydau, roedd yr awydd am gerddoriaeth yn ei holl ffurfiau yn dominyddu'r naratif, ond yn achos yr arddangosfeydd, arddangosfeydd teithiol mawr, hanes lleol a chymdeithasol, roedd yr atebion yn fwy amrywiol, a threftadaeth/hanes Cymru oedd fwyaf poblogaidd.

Roedd yr ymatebion a naws yr ymgysylltiad mewn perthynas â'r cwestiwn hwn yn cynnig llawer i adeiladu arno.

## Cwestiwn 12

**Gan feddwl yn ôl i'r amser cyn y cyfnod clo, oeddech chi'n ymwybodol o ba arddangosfeydd a digwyddiadau celfyddydol oedd yn digwydd yn lleol ac yn genedlaethol yng Nghymru?**

Wrth ateb y cwestiwn hwn, dywedodd 80% o'r ymatebwyr un ai nad oedden nhw'n ymwybodol, neu nad oeddent ond yn rhannol ymwybodol, o ba arddangosfeydd a digwyddiadau celfyddydol oedd yn digwydd yn lleol ac yn genedlaethol yng Nghymru. Dim ond 20% o'r ymatebwyr oedd yn ystyried eu bod nhw'n llwyr ymwybodol.

Mae'n bosib, ar lefel leol o leiaf, eu bod nhw'n tanamcangyfrif eu gwybodaeth, gan fod 58% o'r ymatebwyr wedi bod i ddigwyddiadau lleol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

## Cwestiwn 13 ac 14

**Cwestiwn 13 - Sut hoffech chi gael gwybod am ddigwyddiadau/arddangosfeydd newydd?**

**Cwestiwn 14 - Beth, yn eich tyb chi, yw'r ffordd orau y gall y Lleoliad roi gwybod i bobl leol am ddigwyddiadau/arddangosfeydd sy'n digwydd?**

Wrth ystyried eu dewis ddull o gael gwybodaeth yn bersonol, rhannu gwybodaeth yn electronig oedd prif ddewis llawer o bobl, ond cyfeiriodd dros hanner yr ymatebwyr at bosteri a thaflenni fel ffordd arall yr hoffen nhw gael gwybodaeth.

Roedd Cwestiwn 14 yn ceisio safbwyntiau ynghylch beth mae pobl yn meddwl fyddai'r ffordd orau y dylai eu cymuned gael gwybodaeth. Mae'n ddiddorol nodi bod gwahaniaeth rhwng ymatebion pobl ar gyfer eu dewis personol, sef e-bost fel y gwelwyd yng Nghwestiwn 13, a beth roedd yr ymatebwyr yn ei

argymell ar gyfer pobl leol eraill. Nododd 37% e-bost fel eu dewis personol, ond dim ond 11% fyddai'n ei argymell i bobl eraill yn eu cymunedau.

Yr hyn sy'n amlwg yw nad oes un dull o rannu gwybodaeth neu ymgysylltu sy'n addas i bawb.

## Cwestiwn 15

**Beth ydych chi'n ei ystyried yw celfyddyd a diwylliant?**

Wrth ddisgrifio celfyddyd, nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wahanol ffurfiau ar gelfyddyd i gyfleu eu pwynt.

Wrth drafod diwylliant, cynigiodd yr ymatebwyr ymatebion mwy amrywiol o gymharu â'u hymatebion ar gyfer celfyddyd. Y themâu amlycaf oedd; Y ffordd rydyn ni'n byw, Treftadaeth, a Hanes.

Cynigiodd carfan fach frwdfrydig (16%) y syniad diddorol fod popeth sy'n rhan o'n bywydau yn gysylltiedig ac yn rhan annatod o gelfyddyd a diwylliant.

I'w nodi: dim ond un ymatebydd gyfeiriodd at yr Eisteddfod, gan ddangos cyrhaeddiad gwael i'r gymuned hon sy'n siaradwyr Saesneg yn bennaf. Gwelwyd diffyg celfyddydau a diwylliant Cymraeg yn yr ymatebion i bob cwestiwn perthnasol arall hefyd.

## Cwestiwn 16

**Faint ydych chi'n teimlo wedi'ch cysylltu â chelfyddyd a diwylliant yn eich cymuned?**

Er eu bod yn mynychu digwyddiadau celfyddydol a diwylliannol yn rheolaidd, roedd 88% o'r ymatebwyr yn teimlo wedi'u datgysylltu neu wedi'u datgysylltu'n rhannol oddi wrth gelfyddydau a diwylliant yn eu cymuned.

Gyda data sy'n gwrthdaro cymaint mewn perthynas â phresenoldeb a chysylltiad, mae'n bosib fod angen archwilio ansawdd y profiadau celfyddydol/diwylliannol lleol hynny mae pobl leol yn eu mynychu.

Fel rydyn ni wedi'i weld yng Nghwestiwn 7 ac 8, mae datgysylltiad rhwng dyheadau lleol a'r genres celfyddydol a diwylliannol a ddarperir yn lleol. Mae'n ddigon posib fod hyn wedi cyfrannu at y gyfradd datgysylltiad uchel iawn o 88%.

## Cwestiwn 17

**Beth fyddech chi a/neu eich cymuned ei eisiau gan raglen sydd wedi'i chynllunio a'i hariannu i gefnogi gweithgarwch creadigol yn eich ardal chi?**

Gellid disgrifio'r cyfraniadau i'r cwestiwn hwn fel brwdfrydig iawn. Roedd rhai ymatebion yn canolbwyntio ar ddatblygiad cyffredinol, yn gwybod bod angen i bethau newid ond ddim yn siŵr beth

i’w awgrymu, ond cynigiodd ymatebwyr eraill 123 awgrym cadarn. Dim ond dau ymatebydd na wnaeth ymgysylltu â’r cwestiwn.

- Roedd y dyhead am fwy o ddosbarthiadau celf a chrefft yn glir iawn, gyda dros 50% o’r ymatebwyr o blaid hynny. Nodwyd 14 gweithgaredd celf a chrefft gwahanol y byddai dosbarthiadau penodol ynddynt o fudd.
- Arweiniodd y drafodaeth flaenorol ar ddemocrateiddio celfyddyd a diwylliant at bron i draean yn dymuno i ddemocratiaeth ddiwylliannol gael ei gweithredu. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â phobl leol yn rheoli beth gaiff ei ariannu.
- Roedd bron i draean yr ymatebwyr yn dymuno cael mwy o gefnogaeth ar gyfer celfyddydau a diwylliant sy’n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc.
- Roedd ychydig yn fwy nag un ymhob pump o’r ymatebwyr yn awyddus i’r grwpiau theatr lleol a’r Colisëwm gael eu hariannu’n well.
- Cafwyd cefnogaeth dda iawn i Colstars drwy gydol yr astudiaeth hon. Mewn ymateb i’r cwestiwn hwn, dywedodd 8% o’r ymatebwyr yr hoffen nhw i Colstars gael eu hariannu’n well.
- Nodwyd effeithiau Covid ar gymunedau, gydag 16% o’r ymatebwyr eisiau gweithgareddau celfyddydol/diwylliannol a ariennir sy’n ymateb i faterion cydlyniant cymunedol a waethygwyd gan Covid.
- Cyfeiriodd 10% o’r ymatebwyr at gludiant a hygyrchedd anabledd.
- Roedd 5% o’r ymatebwyr yn cefnogi mwy o gelfyddydau a diwylliant rhyng-genhedlaeth. Roedd hyn yn cynnwys pobl ifanc yn gweithio ar brosiectau celfyddydol a diwylliannol mewn cartrefi nyrsio.

Mae nifer a dyfnder yr ymatebion i’r cwestiwn hwn yn dangos cymuned sy’n llawn cymhelliant ac sy’n awyddus i gael mwy o gyfleoedd celfyddydol a diwylliannol yn eu hardal leol, yn enwedig ar ffurf dosbarthiadau lle gall pobl ddatblygu eu doniau.

## Cwestiwn 18

**Beth fyddai eich neges derfynol i Gyngor y Celfyddydau/Amgueddfa Cymru?**

Cynlluniwyd y cwestiwn hwn i roi’r gallu i ymatebwyr gyfeirio’n benodol at Gyngor y Celfyddydau ac Amgueddfa Cymru. Roedd yr atebion yn gyfoethog ac yn adlewyrchu llawer o’r trafodaethau blaenorol a arweiniwyd gan gwestiynau.

Rhannwyd yr ymatebion ar sail themâu.

- Cefnogwyd y thema democrateiddio celfyddydau gan dros chwarter yr ymatebwyr. Mae’r gyfradd ymateb hon yn debyg i’r hyn a fynegwyd ac a nodwyd yng Nghwestiwn 17.
- Gan adlewyrchu elfennau o ddemocratiaeth ddiwylliannol, roedd traean o’r ymatebwyr yn teimlo bod angen canolbwyntio a buddsoddi mewn cymunedau lleol.

- Unwaith eto, yn debyg i Gwestiwn 17, roedd dros un ymhob bump yn dymuno i Gyngor y Celfyddydau/Amgueddfa Cymru ganolbwyntio ar Blant a Phobl Ifanc.
- Nodwyd natur wael ac ysbeidiol y wybodaeth a deunydd hyrwyddo, gydag 8% eisiau ffyrdd gwell o ddarparu'r gwaith hwn.
- Drwy gydol yr astudiaeth, roedd diffyg fforddiadwyedd yn thema barhaus, gan gynnwys yn y cwestiwn hwn lle nododd 7% o'r ymatebwyr hyn fel problem i'w datrys.
- Yn debyg i Gwestiwn 17, cyfeiriodd 8% o'r ymatebwyr at yr angen i ailadeiladu cymunedau gyda'r celfyddydau a diwylliant ar ôl Covid.
- Cyfeiriodd nifer fach o ymatebwyr at yr angen am ffocws mwy gwledig.

Yn debyg i'r ymatebion i Gwestiwn 17, mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn dangos cymuned sy'n llawn cymhelliant a brwdfrydedd i gael mwy o gyfleoedd celfyddydol a diwylliannol yn eu hardal leol, ac sydd eisiau i Gyngor y Celfyddydau/Amgueddfa Cymru a chwaraewyr eraill yn y maes hwn weithredu hyn.

## 5. Argymhellion

Yn gyffredinol, rydyn ni'n credu bod tystiolaeth gref dros yr angen am newid mewn perthynas ag ymagwedd Cymru tuag at y celfyddydau a diwylliant mewn cymunedau difreintiedig gwledig. Rydyn ni hefyd o'r farn bod y canfyddiadau'n adlewyrchu'n gryf ddyhead ac angen am newid ymagwedd, i un sydd â'i gwreiddiau mewn damcaniaeth ac arfer Democratiaeth Ddiwylliannol. Mae'r celfyddydau a diwylliant, yn eu hanfod, yn gyfoethog ac yn amrywiol, ond mae diffiniad celfyddyd a diwylliant yn aml wedi'i gyfyngu i'r hyn a gaiff ei dderbyn a'i gynhyrchu gan y sefydliad celfyddydol a diwylliannol, ac yna ei adlewyrchu yn y cyfryngau a'r prosesau gwleidyddol. Bydd gweithio ar sail egwyddorion Democratiaeth Ddiwylliannol, yn ehangu'r diffiniad hwn o reidrwydd, gan arwain at ymagwedd fwy cynhwysol tuag at ymyriadau yn y tirlun celfyddydol a diwylliannol.

Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru ddilyn arweiniad Llywodraeth Cymru a gweithio tuag at y syniadaeth 'Adeiladu'n Ôl yn Fwy Teg'. Mae hyn yn cynnwys archwilio sut mae polisïau ac arferion presennol yn gweithio yn erbyn egwyddorion Democratiaeth Ddiwylliannol.

Mae llawer o gyhoeddiadau ar gael sy'n manylu ar ddamcaniaeth ac arfer democratiaeth ddiwylliannol, felly i gadw'r adroddiad hwn yn gryno, ni wnawn ni eu hatgynhyrchu yma.

1. **Mabwysiadu Democratiaeth Ddiwylliannol mewn arfer a damcaniaeth**

   Nid yw Democratiaeth Ddiwylliannol yn syniad newydd, ac mae cefnogaeth eang iddi gan lawer yn y sector celfyddydol a diwylliannol, ond dydyn ni ddim o'r farn ei bod wedi'i mabwysiadu'n gyffredinol mewn arfer, yn enwedig mewn perthynas â strwythur ariannu a phenderfyniadau. Dydyn ni ddim yn tanamcangyfrif pa mor anodd gallai gweithredu hyn fod, gan nad yw newid diwylliant sefydliadol byth yn hawdd, ond mae'n angenrheidiol.

2. **Creu strwythur sy'n caniatáu gweithredu Democratiaeth Ddiwylliannol.**

   Os yw'r model gweithio hwn i gael ei fabwysiadu, mae angen creu strwythurau. Gellid gwneud hyn drwy greu byrddau cynghorol dan arweiniad y gymuned neu baneli pobl. Dylai'r byrddau hyn gynnwys pobl o'r cymunedau i sicrhau eu bod yn agored ac yn dryloyw, ac i alluogi'r cymunedau hyn i fod yn rhan o'r holl brosesau penderfynu, gan sicrhau y caiff anghenion a dymuniadau'r gymuned eu hadlewyrchu'n llwyr ym mhob maes gwaith. Bydd gan y paneli neu'r byrddau hyn fantais ychwanegol o weithredu fel llysgenhadon i Gyngor y Celfyddydau ac Amgueddfa Cymru, gan gynnig gwybodaeth amdanyn nhw a'u gweithgareddau i galon cymunedau.

3. **Creu cymuned o ddiddordeb.**

   Mae llawer o grwpiau celfyddydol a diwylliannol yn lleoliad yr astudiaeth eisoes, ond yma rydyn ni'n cynnwys lleoliadau addysgol hefyd. Bydd dod â'r grwpiau hyn ynghyd i gymuned o ddiddordeb yn cynorthwyo ymagwedd gydlynus a democrataidd tuag at eu datblygiad, i ba gyfeiriad bynnag y dymunant fynd. Gellir rhannu arfer da ynghyd â chreu'r tirlun ar gyfer cyd-gynhyrchu a chydweithio.

4. **Gwella ymwybyddiaeth o enw Cyngor y Celfyddydau ac Amgueddfa Cymru.**

   Er efallai nad yw lefel isel yr ymwybyddiaeth yn hollbwysig ynddi'i hun, gan nad ydyn ni o'r farn bod hyn yn effeithio ar foddhad gwylio'r gynulleidfa, gallai effeithio ar gyfleoedd pobl yn y diwydiant celfyddydol a diwylliannol. Gallai ymwybyddiaeth isel o gyrff ariannu, ynghyd â diffyg cysylltiadau

personol gyda phobl sy'n gweithio yn y meysydd hyn, effeithio ar ddealltwriaeth a gallu pobl i geisio cyllid a chyfleoedd, gan greu bwlch cyfle rhwng dinasoedd, y dosbarth canol, a chymunedau difreintiedig gwledig.

5. **Annog darparwyr celfyddydol a diwylliannol lleol i gysoni eu gweithgareddau gyda dymuniadau'r gymuned leol**

   Wrth gymharu'r gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yr oedd yr ymatebwyr wedi cymryd rhan ynddynt, gyda'r dymuniadau roedden nhw am eu cynnal, roedd datgysylltiad mawr ac amlwg. Nid yw'r gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol a ddarperir yn lleol yn gyson â'r dyhead lleol a adroddwyd, sy'n golygu nad yw safleoedd lleol yn ymateb i anghenion lleol, neu eu bod yn methu â gwneud hynny.

   Gallai'r data awgrymu bod y datgysylltiad uchel iawn rhwng dyheadau pobl a'r ddarpariaeth gelfyddydol a diwylliannol leol yn gyrru'r datgysylltiad uchel iawn a adroddwyd rhwng pobl a'r hyn a ddarperir yn lleol.

   Byddai defnyddio ymagwedd Democratiaeth Ddiwylliannol, yn ei hanfod, yn mynd i'r afael â materion o'r fath.

6. **Sicrhau bod ffocws datblygedig ar blant a phobl ifanc**

   Drwy gydol yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ac yn enwedig yn y ddau gwestiwn olaf, roedd yr ymatebwyr eisiau ffocws clir ar ddyheadau celfyddydol a diwylliannol plant a phobl ifanc. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau'n cyfeirio at y celfyddydau a diwylliant, tra bod eraill yn cyfeirio fwy at y maes cydlyniant cymunedol. Cyfeiriai'r ymatebwyr at Colstars yn rheolaidd ac roeddent yn gefnogol ohonynt. Roedd eu cyrhaeddiad cymunedol yn uchel iawn, ac roedd ymwybyddiaeth o'u henw yn llawer uwch na Chyngor y Celfyddydau ac Amgueddfa Cymru.

7. **Ailadeiladu cydlyniant cymunedol mewn byd ar ôl Covid**

   Mae llawer o bobl hŷn yn teimlo wedi'u hynysu ac yn ofni bod eu cysylltiadau â'u cymuned cyn Covid wedi'u torri am byth. Awgrymwyd y gallai'r celfyddydau a diwylliant fod yn ffordd o ailadeiladu cysylltiadau a gollwyd. Awgrymwyd gwaith rhyng-genhedlaeth hefyd, yn enwedig mewn cartrefi nyrsio lle mae pobl wedi'u hynysu ers blwyddyn. Gallai gwaith gynnwys projectau sy'n casglu straeon bywyd gan y boblogaeth hŷn fawr yn yr ardal. Yn gyffredinol, maen nhw wedi'u datgysylltu oddi wrth y celfyddydau a diwylliant, felly byddai creu perfformiad neu arddangosfa sy'n rhoi eu bywydau'n ganolog iddo yn werthfawr iawn, a gallai helpu i'w cynnwys yn y celfyddydau a diwylliant mewn ffordd hygyrch.

8. **Democratiaeth ddiwylliannol mewn byd ar ôl Covid.**

   Dyma gyfle perffaith i ddefnyddio egwyddorion ac arferion democratiaeth ddiwylliannol, gan fanteisio ar y cyfleoedd mae creadigrwydd a diwylliant yn eu cynnig wrth sicrhau economïau a doniau lleol. Dylai deall rôl maes y celfyddydau a diwylliant wrth helpu i adeiladu a chynnal cymunedau, gwella iechyd a llesiant, a chefnogi a hyrwyddo cyfleoedd i'n plant a phobl ifanc, fod yn sylfaen i waith Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru wrth lywio beth fydd, yn anochel, yn fyd heriol ar ôl Covid.